Rhifyn 9

Ebrill 2009

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Diogelu'r Cyhoedd

BWYDO'R MEDDWL

Taflen Newyddion Gwasanaeth Diogelwch Bwyd Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd

"O na, mae'r Archwilydd Iechyd yma eto!"

Ydych chi'n mawr ofni archwiliad hylendid bwyd? Ydych chi'n deall am beth yr ydym yn chwilio pan fyddwn yn cynnal archwiliad? Wyddoch chi pa rannau o gyfraith bwyd sy'n effeithio ar eich marciau sêr?

Yn gyntaf, pan fyddwn yn cynnal archwiliad rydym yn edrych ar lendid yr eiddo ac adeiladau a bod adeiledd cyffredinol yr eiddo'n addas i'r diben – er enghraifft, bod modd glanhau'r waliau, y lloriau a'r nenfwd, ond hefyd bod gennych ddigon o unedau sinc, basnau ymolchi, awyru, goleuo a draeniau.

Rydym yn sicrhau bod gennych ddigon o offer i baratoi a chadw bwyd yn briodol – er enghraifft, byrddau torri bwyd, oergelloedd a thaclau coginio a dal bwyd poeth.

Yn ail ran yr archwiliad, byddwn yn gofyn amryw gwestiynau am hyfforddi trinwyr bwyd, eich cyflenwyr bwyd a sut fyddwch yn paratoi a chadw'r bwyd mewn gwirionedd, i benderfynu a yw'r bwyd sy'n cael ei weini gennych yn ddiogel. Fel y gwyddoch, mae'n ofyniad cyfreithiol i ddangos bod gennych drefn yn bodoli i wneud hyn, sy'n aml yn cael ei galw'n system Rheoli Diogelwch Bwyd (FSM).

Os oes gennych system FSM ddiweddar, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd, yn bodoli yn eich busnes bydd hyn yn helpu cynyddu sgôr 'Hyder yn Rheolaeth' eich busnes. Mae'r sgôr hwn yn ffurfio rhan fawr o'r sgôr sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo eich marciau sêr. Mater i reolwyr busnes bwyd yw dangos bod eiddo glân, wedi'i gynnal yn dda, hefyd yn defnyddio arferion a dulliau gweithredu i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei weini ganddo'n ddiogel. Ni fydd busnes heb FSM yn cyrraedd marciau sêr uchel.

Ar gyfer arlwywyr, mae'r pecyn Bwyd Diogelach Busnes Gwell yn ffordd hawdd ac effeithiol o weithredu system FSM. Dros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi bod yn rhannu pecynnau BDBG yn ystod archwiliadau ond hefyd yn cynnal seminarau ar sut i weithredu'r pecynnau mewn sesiwn gweithdy.

Byddwn yn cynnal seminar arall ar ddydd Mercher 22ain Ebrill ond, yn y cyfamser, os hoffech gael pecyn BDBG, cofiwch gysylltu â'ch archwilydd fydd yn falch o ddarparu pecyn a'i egluro i chi.

Bydd manylion cysylltu â'r archwilydd ar eich llythyr archwiliad diwethaf.

Yn y rhifyn hwn:

Sgorau ar Ddrysau	2
Cynllun Gwobrwyo Dewisiadau Iechyd	2
Dyddiadau Defnyddio Erbyn	2
Rhybudd Llythyr Ffug	3
Profi Pwy Ydych – Cwrs Hyfforddi Hylendid Bwyd	3
Enillwyr Gwobr Hylendid Bwyd	4
Dyddiadau Hyfforddiant Hylendid Bwyd	4

Sgorau ar Ddrysau

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cymeradwyo cynllun cenedlaethol ar gyfer marciau sêr ar eiddo ac adeiladau bwyd, yn debyg i'r cynllun a gyflwynodd Wrecsam ym mis Tachwedd 2006.Bydd chwech o haenau yn y cynllun cyfrif glendid yn cynrychioli'r gwahanol safonau hylendid bwyd sydd i'w gweld gan swyddogion yr awdurdod lleol wrth wneud archwiliad hylendid. Ar hyn o bryd, mae marciau sêr Wrecsam yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Wrecsam, a'r nod yn y dyfodol yw arddangos holl farciau sêr yn amlwg yn eiddo ac adeiladau'r busnes hefyd. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ba symbolau i'w defnyddio i gynrychioli'r haenau hyn yn dilyn rhagor o ymchwil genedlaethol ar ddefnyddwyr.

Cynllun Gwobrwyo Dewisiadau Iach

Os byddwch yn defnyddio gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rheolaidd efallai eich bod eisoes yn ymwybodol bod Bwyty Perelli ar Allt y Dref, Wrecsam, mae wedi dod yn fusnes cyntaf Bwrdeistref Wrecsam i gael Gwobr Efydd Dewisiadau Iach. Roedd manylion eu gwobr ar dudalen agoriadol y wefan ac roedd perchennog y tŷ bwyta'n falch iawn o gael y wobr hon, sy'n cyd-fynd i'r dim â'u Tystysgrif Aur Hylendid Bwyd.Fel y gwelwyd yn ein taflen newyddion ddiwethaf, mae hwn yn gynllun gwobrwyo cyffrous newydd ar gyfer busnesau bwyd a lansiwyd yn ddiweddar ar hyd a lled Cymru. Rydym yn awyddus iawn i gael mwy o fusnesau'n rhan o'r arweiniad hwn a, gyda gwyliau'r gwanwyn a'r haf gerllaw, mae hwn yn amser delfrydol i ystyried a all eich busnes gynnig bwydlen iachach.Bydd amryw fusnesau eisoes wedi derbyn llythyrau'n eu gwahodd i ymgeisio am y wobr hon ond, os oes gennych ddiddordeb a heb dderbyn llythyr, cofiwch gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth. I wneud cais rhaid i chi ddal gwobr gyfredol hylendid bwyd gan fod arferion hylendid da'n anhepgor i fwyta'n iach. Nid yw ysgolion, meithrinfeydd a chartrefi gofalu am yr henoed yn gymwys i wneud cais gan fod teimlad y gall hyn wrthdaro â chynlluniau bwyta'n iach eraill sy'n bodoli eisoes ar gyfer y busnesau hyn.

Felly, pa un ai ydych yn rhedeg ffreutur staff, siop frechdanau neu dŷ bwyta prysur, ymgeisiwch am y wobr hon a gwneud eich rhan dros genedl iachach! Nod y cynllun hwn yw cynnig dewisiadau iach i'r cwsmer ar eich bwydlen – nid yw eich bwydlen gyfan yn gorfod bod yn iach. Mae'n ymwneud â rhoi dewis i'r cwsmer. Byddwch yn cael amser a digon o gyngor am ddim i helpu i chi newid eich bwydlen; nid oes angen i chi newid eich bwydlen gyfan dros nos.

Mae gwobrau efydd, arian neu aur sy'n ddilys am 2 flynedd. Cysylltwch â Melissa Hall ar (01978) 298904 i gael rhagor o wybodaeth.

Rhybudd llythyr ffug

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhybuddio gweithredwyr busnesau bwyd ynghylch llythyrau ffug sy'n honni eu bod yn dod o'r Asiantaeth yn hawlio taliad am dorri rheoliadau diogelwch bwyd. Mae'r un llythyr a dynnwyd i sylw'r Asiantaeth yn hawlio taliad o £1,000. Mae'r Asiantaeth yn rhybuddio gweithredwyr busnesau bwyd os byddant yn derbyn unrhyw lythyr o'r fath yn honni dod o'r Asiantaeth na ddylent anfon yr arian a dweud wrth yr heddlu lleol am y llythyr yn hytrach.

Nid yr Asiantaeth yw'r awdurdod gorfodi cenedlaethol ar gyfraith bwyd ac ni fyddai'n anfon unrhyw lythyr o'r fath yn hawlio taliad. Yr awdurdodau lleol fyddai'n trin torri unrhyw reoliadau hylendid bwyd.

Profi Pwy Ydych – Cyrsiau Hyfforddi Hylendid

Fel darparwr cyrsiau hyfforddi hylendid bwyd a achredwyd gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH), rhaid i ni ddilyn yr amrywiol drefnau sy'n cael eu hamlinellu yn llawlyfr trefnau CIEH. Dros y deuddeg mis diwethaf bu nifer o newidiadau yn y trefnau sy'n berthnasol yn bennaf i sut fyddwn yn cyflwyno'r cyrsiau. Fodd bynnag, mae un newid yn arbennig fydd yn effeithio arnoch chi neu eich staff sy'n ystyried dilyn cwrs hylendid bwyd.

Erbyn hyn mae gofyn i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o bwy ydynt. Rhaid dangos hyn ar ddechrau'r cwrs a bydd yn cael ei gadarnhau gan diwtor y cwrs.

Rhaid i dystiolaeth addas o bwy ydych gynnwys ffotograff o'r ymgeisydd – bydd y mathau canlynol o dystiolaeth yn dderbyniol:

- Pasbort
- Trwydded yrru
- Cerdyn undeb myfyrwyr
- Cerdyn gwaith
- Cerdyn 'profi' oedran

Yn y dyfodol pan fyddwch yn cadw lle ar un o'n cyrsiau byddwch yn cael ffurflen gofrestru cyn cwrs. Dylech lenwi'r ffurflen hon a dod â hi ar ddechrau'r cwrs, ynghyd â'ch tystiolaeth o bwy ydych. Yn anffodus, os na allwch roi tystiolaeth o bwy ydych, ni fyddwch yn gallu sefyll yr arholiad.

I'W RHOI YN EICH DYDDIADUR

Cyrsiau Hyfforddi Hylendid Bwyd 2009-2010

Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd wrth Arlwyo (Sylfaenol) (£42.00)

Mai 2009

Dydd Llun 11eg a 18fed 6 – 9pm

Medi 2009

Dydd Llun 14eg ac 21ain 6 – 9pm

Tachwedd 2009

Dydd Llun 9fed ac 16eg 6 – 9pm

Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Diogelwch Bwyd wrth Arlwyo (£120.00)

Medi 2009 – Tachwedd 2009

Dydd Mercher 16eg Medi – Dydd Mercher 25ain Tachwedd

6 – 8.30pm

Dyfarniad Lefel 4 mewn Rheoli Diogelwch Bwyd wrth Arlwyo (£295.00)

Ionawr 2010 – Ebrill 2010

Dydd Iau 14eg Ionawr – Dydd Iau 6ed Mai 6 – 9pm

SUT I GYSYLLTU Â NI

Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd

Adran Diogelwch Bwyd a Safonau Masnachu

(Safonau Bwyd)

Stryd Fawr

Rhiwabon

Wrecsam LL14 6NH

Ffôn: 01978 292040 (Diogelwch Bwyd)

Ffôn: 01978 292040 (Safonau Bwyd)

Ffacs: 01978 813709

Galwch heibio ni ar y we yn

www.wrecsam.gov.uk

Enillwyr Gwobr hylendid bwyd

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi cyflawni Gwobrau Hylendid Bwyd rhwng Medi 2008 a Rhagfyr 2008

Gwobr Aur

Rowan Foods Cyf, De Ffordd yr Onnen, Stad Ddiwydiannol Wrecsam; Abbeyfield Society, Lôn y Ffawydd, Wrecsam; Ysgol Gynradd Alexandra, Rhodfa'r Parc, Wrecsam; Williams Butchers, Stryt y Banc, Wrecsam; D & J Thomas, The Butchers Shop, Chelmondray, Ffordd y Gardden, Rhos; Village Bakery Cyf, Ffordd Rhuthun, Y Mwynglawdd; Yale College Food Court, Ffordd Rhosddu, Wrecsam; Marks and Spencer, Canolfan Siopa Dôl Eryrod, Wrecsam

Gwobr Arian

Canolfan Dydd Plas yn Rhos, Rhos; Brambles, 5 Stryt y Banc, Wrecsam; Caffe Nero, Ffordd Rhosddu, Wrecsam; Canolfan Erlas, Ffordd Bryn Estyn, Wrecsam; Scallywags Day Nursery, Ffordd y Bont, Stad Ddiwydiannol Wrecsam; Mecca Bingo Cyf, Ffordd Smithfield, Wrecsam; Ysgol Iau Parc Llai, Ffordd yr Ysgol, Llai; Ysgol Gynradd Rhosddu, Lôn Price, Wrecsam; Cartref Preswyl Penygarth, Lôn Las, Brymbo; Lindan House, 9 & 11, Ffordd Percy, Wrecsam; Co-operative Retail, Stryt y Farchnad, Rhos; Ysbyty Iâl, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam; Tim's for Fish, Y Farchnad Gig, Wrecsam; Ysgol Fabanod y Waun, Y Waun; Ysgol Fabanod Penycae, Allt Copperas, Penycae; Ysgol

Gwobr Efydd

Ysgol Fabanod Parc Acton, Wrecsam; Ysgol Iau Parc Acton, Wrecsam; Cylch Meithrin Cae-go, (New House), Ffordd y Bers, Cae-go; Ysgol y Santes Fair, Brymbo; A B C Nursery, Cefn y Bedd; Hugh John Jones, Y Farchnad Gig, Wrecsam; Ecclestons, Ffordd Caer, Gresffordd; Caego Childrens Day Nursery, Neuadd yr Eglwys, Ffordd Fawr, Cae-go; Gwesty Acton Park, Ffordd Caer, Wrecsam; The Boat Inn, Erbistog; First Milk Cheese Company Cyf, Ffreutur Staff, Cross Lanes, Wrecsam; Ysgol Iau Victoria, Stryt Poyser, Wrecsam; Cherubs at Total Fitness, Ffordd Stansty, Wrecsam; Ysgol Gynradd Rhostyllen, Rhostyllen; Subway, Stryt Fawr, Wrecsam; Redbrook Day Nursery, Lôn y Bryn, Stad Ddiwydiannol Wrecsam; Ysgol Fabanod Parc Borras, Ffordd Parc Borras, Wrecsam; Anise, Ffordd Smithfield, Wrecsam; KFC, Wrecsam; Gwesty Llyndir Hall, Lôn Llyndir, Yr Orsedd, Burton; Silly Barts, Ffordd Holt, Wrecsam; First Milk Cheese Company Cyf (Prosesu Maidd), Cross Lanes, Wrecsam; J T Vernon Cyf (Get Stuffed), Uned B, Canolfan Fusnes y Bryn Lôn y Bryn, Wrecsam; Siop